Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: Ysgol Gymraeg Pontardawe
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2021/22

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni – Tymor yr Hydref 2021

**Dyddiad Cyfarfod y Cyfnod Sylfaen - 02/12/21**

Rhieni a oedd yn bresennol: Michelle Burchell, Catrin Pugh, Abi Hobson, Ceri Metcalfe, Chris Pinnington

Ymddiheuriadau (ond wedi cyfrannu drwy e-bost): Helen Gibbons

Staff a oedd yn bresennol: Mrs Dando, Mrs Fewings, Miss White, Mrs Parkhouse a Mr Scourfield

1. Mae nifer o rieni wedi gofyn petai'n bosib i'r ysgol roi mwy o rybudd am ddigwyddiadau pan fydd disgyblion yn cael eu gwahodd i wisgo i fyny?
   Ymateb: Er bod yr ysgol bob amser yn ceisio rhoi o leiaf pythefnos o rybudd am ddigwyddiadau, gyda'r mwyafrif yn cael eu rhestru yn y 'trosolwg tymhorol' sy'n cael ei rannu ar ddechrau pob tymor, cafwyd achlysuron yn ddiweddar lle nad oedd hyn wedi digwydd.
   Ymateb: Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau ein bod yn rhoi o leiaf pythefnos o rybudd lle'n bosib.
2. Cafwyd sylwadau gan ddisgyblion y tymor hwn nad yw rhai eitemau prydau ysgol mor flasus ag y buont yn y gorffennol.
   Ymateb: Gan mai mater i'r Adran Arlwyo yw hwn, gallaf ond dyfalu drwy ddweud bod yr awdurdod lleol yn newid cyflenwyr yn achlysurol ac efallai mai dyma'r rheswm dros yr amrywiad mewn blas.
3. Gofynnodd rhiant faint o amser sydd gan ddisgyblion i fwyta eu cinio a pham mae rhai disgyblion yn bwyta ar eu pennau eu hunain amser cinio?
   Ymateb: Mae gan ddisgyblion sydd â phecynnau bwyd hyd at awr, os oes angen, i fwyta eu cinio. Fodd bynnag gyda'u ffrindiau o bosib yn bwyta'n gyflymach ac yn mynd allan i chwarae, efallai bod rhai plant yn cael eu gadael i fwyta heb eu ffrindiau o bryd i'w gilydd. I'r sawl sy'n derbyn cinio ysgol, mae'n bosib y caiff eu cinio nhw ei weini'n ddiweddarach, o ganlyniad i dros 300 o blant yn gorfod cymryd eu tro i fwyta yn neuadd yr ysgol. Fodd bynnag, rhoddir digon o amser i'n holl ddisgyblion fwyta eu cinio, hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod rhai disgyblion, ar adegau, yn dal i fwyta pan fydd gwersi'r prynhawn yn dechrau. Unwaith eto, gyda ffrindiau'n bwyta'n gyflymach ar adegau er mwyn gwneud yn fawr o'u hamser chwarae, efallai y bydd rhai plant yn cael eu gadael i fwyta heb eu ffrindiau o bryd i'w gilydd.

Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: Ysgol Gymraeg Pontardawe
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

4. Er y gall disgyblion gael mynediad at eu poteli dŵr mewn ardal ddynodedig o'r dosbarth (fel arfer ar fwrdd neu wrth y sinc), ar unrhyw adeg yn ystod y dydd, pam na allant eu cadw wrth eu desgiau neu ar y carped fel eu bod yn cael eu hannog i yfed yn amlach?
   Ymateb: Er mwyn helpu disgyblion i ganolbwyntio, eu hatal nhw rhag chwarae gyda'u poteli yn ystod gwersi ac i atal dŵr rhag gollwng, mae disgyblion yn cadw eu poteli dŵr mewn ardal ddynodedig o'r ystafell ddosbarth lle maent yn gallu cael gafael arnynt pryd bynnag y dymunant. Mae'r staff yn annog disgyblion yn rheolaidd i yfed a chadw'n hydradol yn ystod y dydd gan fod hyn hefyd yn helpu canolbwyntio. Gyda'n disgyblion hŷn, mae ganddynt rywfaint o gyfrifoldeb personol i sicrhau eu bod yn yfed yn rheolaidd yn ystod y dydd ac ni ellir dibynnu ar staff yn unig i'w hatgoffa.
5. Mae rhiant wedi cwestiynu pam mae'r ysgol yn parhau i ddefnyddio siartiau ymddygiad gweledol ym mhob dosbarth, gydag agweddau negyddol iddynt yn ogystal â rhai cadarnhaol. Oni ddylai'r ysgol hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a dileu ochr negyddol y siart?
   Ymateb: Er bod yr ysgol yn mynd ati i hyrwyddo, annog a gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, mae achlysuron lle mae disgyblion yn gwneud dewisiadau gwael ac yn torri rheolau'r ysgol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae symud disgybl i lawr y siart i'r wyneb coch (anhapus) yn aml yn ei sbarduno i wneud ymdrech i symud yn ôl i fyny'r siart cyn diwedd y dydd. Mae pob diwrnod yn cynrychioli dechreuad newydd, gyda'r holl ddisgyblion yn dechrau'r diwrnod ar yr wyneb gwyrdd (hapus!). Mae ymagwedd gyfannol yn hanfodol wrth reoli ymddygiad mewn ystafell ddosbarth a bydd yr ysgol yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i sicrhau bod ein disgyblion yn ymddwyn mewn modd sy'n caniatáu i bob aelod o gymuned yr ysgol ffynnu.
6. Cafodd y Nosweithiau Rhieni diweddar, a gynhaliwyd ar *MS Teams* unwaith eto, eu canmol, gyda llawer o rieni'n datgan eu bod yn ffafrio'r rhain dros gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn gofyn a fydd y rhain yn parhau yn y dyfodol?
   Ymateb: Er bod y staff addysgu'n cytuno bod y Nosweithiau Rhieni wedi mynd yn dda iawn, gydag apwyntiadau'n mynd fel cloc, y ddau riant yn gallu bod yn bresennol ayyb, mae dal rhai yn mynegi eu bod yn ffafrio cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae ymagwedd gyfunol yn debygol o gael ei mabwysiadu yn y dyfodol, gyda rhieni'n cael cynnig y ddau opsiwn a nosweithiau ar wahân yn cael eu trefnu er mwyn diwallu anghenion pawb.
7. Pryd fydd y gwahanol ddisgos a ffeiriau Nadolig/haf sy'n cael eu trefnu gan 'FfrindiauYGG Pontybrenin' yn ailddechrau?
   Ymateb: Gyda'r sefyllfa bresennol fel y mae a'r cynnydd a ragwelir yn nifer yr achosion o COVID-19 dros y gaeaf ac o bosib y gwanwyn, nid wyf yn

rhagweld sefyllfa lle bydd y rhain yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos. Byddant yn cael eu trefnu unwaith y bydd hi'n ddiogel ac ymarferol.

8. Oes modd i'r Clwb Brecwast ddechrau'n gynt na 8.10yb? Byddai hyn o gymorth mawr i rieni sy'n gweithio, gyda llawer ohonynt yn barod i dalu am y ddarpariaeth ychwanegol.
   Ymateb: Mae'r staff sy'n cael eu cyflogi i weithio yn y clwb brecwast hefyd yn cael eu cyflogi fel Cynorthwywyr Addysgu yn yr ysgol. Mae gan lawer ohonynt deuluoedd ifanc eu hunain ac ni allant ymrwymo i ddechrau gwaith yn gynharach. Wrth gwrs, byddwn yn adolygu hyn yn gyson a phetai'r sefyllfa'n newid, bydd rhieni'n cael eu hysbysu yn syth.
9. Gan fod disgyblion y dosbarth Derbyn wedi astudio priodasau yn ddiweddar, ydy'r ysgol yn dathlu priodasau un rhyw yn ogystal â phriodasau heterorywiol a beth mae'r ysgol yn ei wneud i ddathlu amrywiaeth yn hyn o beth?
   Ymateb: Dewiswyd y pwnc priodasau o ganlyniad i'r Dosbarth Derbyn yn darllen 'Priodas y Ddau Fwgan Brain' (*The Scarecrows Wedding*). Er bod y cymeriadau canolog yn y llyfr yn wrywaidd a benywaidd, nid oedd y gweithgareddau a gwblhawyd gan ddisgyblion yn seiliedig ar briodas rhyw benodol, h.y. bu'r disgyblion yn astudio gwahoddiadau priodas, bwydlenni bwyd parti, addurniadau etc. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn addysgu cwricwlwm cynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn annog ein holl ddisgyblion i barchu pawb, waeth beth fo'u hil, ethnigrwydd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.
10. Gyda chyfyngiadau'n cael eu llacio mewn rhai agweddau ar fywyd ysgol, a oes cynlluniau i ailgyflwyno'r ddarpariaeth o laeth i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen?
   Ymateb: Penderfynodd yr awdurdod lleol atal darparu llaeth am ddim ar ddechrau'r pandemig Coronafeirws. Fodd bynnag, wrth ysgrifennu'r cofnodion hyn, mae'r ddarpariaeth llaeth wedi ailgychwyn.

Dyddiad cyfarfod Cyfnod Allweddol 2 - 30/11/21

Rhieni a oedd yn bresennol: Abi Hobson, Ceri Metcalfe a Chris Pinnington

Ymddiheuriadau (ond wedi cyfrannu drwy e-bost): Kate Jones

Staff a oedd yn bresennol: Miss Dark, Mrs Sartori, Mrs Parkhouse, Miss Gwenter a Mr Scourfield

1. Gwnaed cais i agor y gât i gerddwyr yng nghefn yr ysgol (ger y cylch troi) i ddisgyblion sy'n mynychu'r Clwb Brecwast.
   Ymateb: Gellir gweithredu hyn ar unwaith, gyda'r gât yn cael ei hagor rhwng 8.10am ac 8.20am o Ddydd Llun, 6 Rhagfyr.
2. Cafodd y Nosweithiau Rhieni diweddar, a gynhaliwyd ar *MS Teams* unwaith

eto, eu canmol, gyda llawer o rieni'n datgan eu bod yn ffafrio'r rhain dros gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn gofyn a fydd y rhain yn parhau yn y dyfodol?
Ymateb: Er bod y staff addysgu'n cytuno bod y Nosweithiau Rhieni wedi mynd yn dda iawn, gydag apwyntiadau'n mynd fel cloc, y ddau riant yn gallu bod yn bresennol ayyb, mae dal rhai yn mynegi eu bod yn ffafrio cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae ymagwedd gyfunol yn debygol o gael ei mabwysiadu yn y dyfodol, gyda'r rhieni'n cael cynnig y ddau opsiwn a nosweithiau ar wahân yn cael eu trefnu er mwyn diwallu anghenion pawb.

3. Codwyd y mater o waith cartref unwaith eto, gyda rhieni'n gofyn a yw hyn yn debygol o gael ei ailystyried yn fuan?
   Ymateb: Gofynnwyd am farn rhieni/gofalwyr ar y mater hwn ddiwethaf yn 2018. Bydd holiadur arall yn cael ei rannu gyda'r rhieni cyn diwedd tymor yr hydref er mwyn cael barn gyfredol.
4. Gofynnodd rhiant pryderus faint o amser sydd gan ddisgyblion i fwyta eu cinio gan fod ei phlentyn yn dod adref gyda nifer o eitemau heb eu bwyta yn ei flwch cinio?
   Ymateb: Mae gan ddisgyblion sydd â phecynnau bwyd hyd at awr, petai angen, i fwyta eu cinio, ond gyda'u ffrindiau o bosib yn bwyta'n gyflymach ac yn mynd allan i chwarae, mae rhai plant yn aml yn gadael eu bwyd er mwyn ymuno â'u ffrindiau ar y buarth. I'r plant sy'n cael cinio ysgol, mae'n bosib y caiff eu cinio ei weini'n ddiweddarach, o ganlyniad i dros 300 o blant yn gorfod cymryd eu tro i fwyta yn neuadd yr ysgol. Fodd bynnag, rhoddir digon o amser i ddisgyblion fwyta eu cinio, hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod rhai disgyblion, ar adegau, yn dal i fwyta pan fydd gwersi'r prynhawn yn dechrau.
5. Codwyd y mater bod lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio iaith amhriodol, gyda rhieni'n gofyn beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn?
   Ymateb: Mae'r defnydd o iaith amhriodol gan ddisgyblion yn annerbyniol ac ni dderbynir hyn gan yr ysgol. Yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin, rydym yn mynd ati i hyrwyddo amgylchedd dysgu hapus a diogel ac yn disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol ymddwyn mewn ffordd ystyriol tuag at eraill. Caiff disgyblion sy'n defnyddio iaith amhriodol eu cosbi yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol ac os bydd hyn yn parhau, cysylltir â rhieni'r plentyn, gyda'r bwriad o wella'r ymddygiad.
6. Roedd nifer o rieni am ddiolch i'r ysgol am safon y cyfathrebu sy'n parhau i gael ei darparu ac am hysbysu rhieni mor brydlon o’r hyn sy'n digwydd dan amgylchiadau anodd.
7. Ar ôl cymaint o ddysgu gartref o ganlyniad i COVID-19, mae pawb wrth eu bodd yn gweld eu plant unwaith eto'n dysgu yn yr ysgol, wyneb i wyneb, gyda'u ffrindiau.
8. Mae rhai rhieni wedi mynegi pryder ynghylch hiliaeth ac amrywiaeth yn yr ysgol. Oes gan yr ysgol gynllun clir i fynd i'r afael â'r mater hwn a pha brotocolau sydd ar waith pan fydd achosion o hiliaeth yn codi?
   Ymateb:Yn ffodus, ychydig iawn o achosion o hiliaeth sy’n cael eu hadrodd yn

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: Ysgol Gymraeg Pontardawe
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

Ysgol Gymraeg Pontybrenin. Fodd bynnag, mae un digwyddiad yn ormod ac ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o hiliaeth na gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail eu hil, ethnigrwydd, crefydd na chyfeiriadedd rhywiol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ethos gwrth-hiliol a byddwn yn ymdrin yn brydlon ag unrhyw ddigwyddiadau hiliol pan fyddant yn digwydd, yn hyrwyddo amrywiaeth a hunaniaeth ac yn herio rhagfarn ac ystrydebu drwy gwricwlwm cynhwysol. Cefnogir y cwricwlwm hwn gan bartneriaid allanol fel yr elusen 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' sy'n cyflwyno gweithdai i ddisgyblion. Cyhoeddir polisi gwrth-hiliaeth diweddaraf yr ysgol ar wefan yr ysgol.

9. Mae nifer o rieni wedi dweud eu bod nhw'n anhapus gyda'r fwydlen prydau ysgol. Y teimlad cyffredinol yw bod sglodion yn ymddangos yn llawer rhy aml ac nad yw'r fwydlen yn ddigon cytbwys nac iach.
   <u>Ymateb</u>: Mae bwydlenni cinio ysgol yn cael eu llunio gan adran arlwyo'r awdurdod lleol ac maent yn cynnwys pryd bwyd dau gwrs wedi'i goginio'n ffres. Mae'r prydau hyn yn bodloni'r canllawiau maeth sy'n ofynnol gan gynllun Blas am Oes Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys dewis o lysiau a salad bob dydd. Cynigir sglodion ar Ddydd Gwener yn unig, gyda thatws wedi ffrio, wedi pobi neu datws pwtsh yn cael eu cynnig ar ddiwrnodau eraill. Mae gan ddisgyblion ddewis o brydau bwyd ac maent yn cael cynnig llysiau, salad a ffrwythau fel cyfwyd, ond mae'n fater o ddewis p'un ai eu bod nhw'n bwyta rhain neu beidio. Nodwyd y pryderon hyn a byddaf yn eu rhannu â'r adran arlwyo.
10. Byddai rhai rhieni'n hoffi i'w plant gael cyfle i newid eu llyfrau pan fo angen, yn hytrach nag ar ddiwrnod penodol.
    <u>Ymateb</u>: Gyda dros 600 o ddisgyblion ar y gofrestr, mae'n rhaid i'r ysgol gael strwythur ar gyfer newid llyfrau darllen yn hytrach na system benagored lle gall disgyblion fynd a dod o'r dosbarth i wneud hyn. Ac eithrio'r disgyblion hŷn sy'n darllen yn annibynnol, mae staff yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen ac yn eu hasesu ar eu gallu a'u parodrwydd i symud i lyfr newydd.

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau i'r fforymau hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gennych a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal yn ail hanner tymor y gwanwyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn diffuant,
Mr Ceri Scourfield
Pennaeth